**Rheoliadau ar gyfer Rheolaeth Ariannol Effeithiol Cyngor Cymuned Llangwyryfon**

1. Sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol sy'n cynnwys rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithlon.
2. Sicrhau bod y cofnodion cyfrifyddu yn ddigonol i ddangos ac esbonio'r trafodion ariannol, ac yn cynnwys cofnod o incwm a gwariant, a chofnod o'r asedau.
3. Pob taliad i gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.
4. Danfonir archeb neu lythyr swyddogol ar gyfer pob gwaith, nwyddau a gwasanaethau oni bai fod contract ffurfiol yn cael ei baratoi.
5. Bydd pob contract yn cydymffurfio a'r rheoliadau ariannol fel y maent yn berthnasol wrth roi contract sy'n uwch na throthwyon yn y Rheoliadau.
6. Trefnu archwiliad mewnol yn flynyddol gan ddarparu'r dogfennau angenrheidiol, a rhoi sylw i unrhyw faterion a godwyd gan yr archwilydd.
7. Paratoi datganiad o falansau ar gyfer pob cyfarfod o'r Cyngor.
8. Paratoi cyfrif incwm a gwariant yn flynyddol i'w gymeradwyo gan y Cyngor.
9. Y Cyngor llawn i ystyried y datganiadau cyfrifyddu cyn eu cyflwyno i'r Archwilydd mewnol.
10. Os bydd angen newid y datganiadau cyfrifyddu ar ôl cael adroddiad yr Archwilydd, rhaid eu cywiro a llofnodi dim hwyrach na 30 Mehefin.
11. Sicrhau bod y dogfennau perthnasol ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus, a rhoi rhybudd cyhoeddus am gyfnod o 20 diwrnod gwaith yn nodi manylion ynglŷn â sut y gall etholwyr arfer eu hawliau.
12. Ar ôl gorffen yr archwiliad rhaid i'r Cyngor ystyried adroddiad yr Archwilydd a chofnodi ei dderbyn.